**LC135**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Deunyddiau Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2000

### Y Cefndir

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Deunyddiau Risg Penodedig 1997.

Mae rheoliadau 1997 yn cynnwys rheolau ar werthu a defnyddio cig a all fod yn creu risg mewn perthynas â BSE.

Mae’r diwygiadau yn gweithredu Penderfyniad diweddar gan y Comisiwn, sy’n cyflwyno rheolau pellach dros ddefnyddio deunydd sy’n creu risg mewn perthynas ag enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn frys ar 28 Medi a daethant i rym ar 1 Hydref.

Mae Rheoliadau 1997 yn gymwys yn Lloegr a’r Alban yn ogystal ag yng Nghymru. Gan hynny, mae diwygiadau yn yr un ffurf a chanddynt yr un dyddiad ar gyfer dod i rym â’r Rheoliadau sydd o dan ystyriaeth ar hyn o bryd wedi’u gwneud ar gyfer Lloegr a’r Alban – OS 2000/2672 ac OSA 2000/345.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Cafodd y Rheoliadau hyn eu hystyried gan y Pwyllgor Deddfau yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd 2000.

Yn y cyfarfod hwnnw, daeth y pwyllgor i'r casgliad y dylai gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i'r Rheoliadau mewn perthynas â'r ddau fater canlynol.

1. Er i'r Rheoliadau gael eu gwneud ar 28 Medi, ni chawsant eu cyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau tan ail wythnos mis Tachwedd. Credid felly na chydymffurfiwyd â Rheol Sefydlog 22.26 gan fod honno'n ei gwneud yn ofynnol bod deddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y weithdrefn frys yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau "cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud".

Daethpwyd i'r casgliad felly fod angen i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar y sail bod y methiant i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 22.26 yn fethiant i gyflawni gofyniad cyfreithiol (Rheol Sefydlog 11.5(v)).

2. Yn ychwanegol, nodwyd bod y Rheoliadau heb eu cyhoeddi. O gofio eu bod wedi'u gwneud ar 28 Medi ac wedi dod i rym ar 1 Hydref, credid bod hyn yn fethiant i gydymffurfio ag adran 2(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod offerynnau'n cael eu cyhoeddi "as soon as possible" ar ôl iddynt gael eu gwneud a'u cofrestru. Ni chredid ei bod yn foddhaol bod personau sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau, neu bersonau y gall fod ganddynt fuddiant ynddynt, yn methu â sicrhau na gweld copi cyhoeddedig fis ar ôl iddynt ddod i rym. Daethpwyd i'r casgliad felly y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar y sail bod yr oedi wrth eu cyhoeddi yn fethiant i gyflawni'r gofyniad yn adran 2(1) o Ddeddf 1946 (Rheol Sefydlog 11.5(v)).

**Rheol Sefydlog 11.4**

Cyn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw Orchymyn Cynulliad arfaethedig, mae Rheol Sefydlog 11.4 yn ei gwneud yn ofynnol bod Cadeirydd y pwyllgor Deddfau yn rhoi gwybod am y bwriad i'r "Ysgrifennydd Cynulliad" a gyflwynodd yr offeryn gerbron y Cynulliad a rhoi cyfle i'r "Ysgrifennydd Cynulliad" roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Gan hynny, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at Mr Carwyn Jones AC ar 22 Tachwedd ar y sail y byddai ef, fel y Gweinidog yn y Cynulliad sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am y Rheoliadau, yn dymuno ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

Atebodd Mr Jones mewn llythyr dyddiedig 5 Rhagfyr, gan wneud y pwyntiau canlynol.

> Gan gyfeirio at adran 58(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae'r Gweinidog yn dweud nad yw mater sy'n ymwneud â pheidio â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 22.26 yn gysylltiedig â phŵer y Pwyllgor Deddfau i archwilio is-ddeddfwriaeth.  Er hynny, mae'r Gweinidog yn cydnabod ei bod yn ddealladwy ac yn briodol y dylai'r Pwyllgor geisio holi pam na chafodd gorchymyn a wnaed o dan y weithdrefn frys ei gyflwyno iddo yn ddioed.
>
> Ymhellach, mae'r Gweinidog yn cydnabod bod y Rheoliadau wedi'u gwneud ar 28 Medi ond na chawsant eu cyflwyno i'r Pwyllgor tan ail wythnos mis Tachwedd. Mae'n dweud nad yw wedi darganfod union achos yr oedi ond bod yna fethiant yn y cyfathrebu rhwng adrannau.
>
> Mae'r Gweinidog yn dweud bod Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol i gymryd camau ar unwaith i gymryd rheolaeth dros orchmynion a wneir o dan y weithdrefn frys er mwyn sicrhau y cânt eu cyflwyno i'r Pwyllgor cyn gynted ag y gellir.
>
> Mae'r Gweinidog yn dweud bod y Rheoliadau wedi'u cyhoeddi ar 27 Tachwedd ac yn cytuno bod yr amser a aethai heibio ers eu gwneud a'u cofrestru yn annerbyniol. Mae'n dweud bod yr Uned Rheoli Deddfwriaeth sydd wedi'i sefydlu yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn rhoi sylw i unrhyw broblemau a all fod ynglyn â chyhoeddi. Dywedir bod aelodau'r Uned yn gwneud ymdrechion sylweddol, ynghyd â Gwasg Ei Mawrhydi a'r Llyfrfa, i ddod o hyd i dechnoleg gwybodaeth a fyddai'n galluogi offerynnau statudol i gael eu cyhoeddi yn fuan ar ôl cael eu gwneud.

**Casgliadau**

Deellir bod llythyr y Gweinidog yn cydnabod na chydymffurfiwyd â Rheol Sefydlog 22.26, ond mae angen ystyried yr awgrym nad yw hyn yn gysylltiedig â phŵer archwilio'r Pwyllgor.  Dywedir mai adran 58(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yw'r sylfaen ar gyfer y gosodiad hwn.

Er hynny, y cyfan y mae adran 58(7) yn ei ddarparu yw hyn –

> “The Assembly may not give to the subordinate legislation scrutiny committee responsibilities not relating to the scrutiny of relevant Welsh subordinate legislation.”

Yr hyn y mae’r Pwyllgor Deddfau yn ei wneud yw edrych ar ddeddfwriaeth sydd o fewn ei gylch gwaith a gweld nad yw honno wedi’i chyflwyno iddo o fewn y cyfnod amser a bennir yn Rheol Sefydlog 22.26. Yn wir, mewn rhai achosion yr unig reswm y mae’r ddeddfwriaeth wedi’i chyflwyno i’r Pwyllgor o gwbl yw bod swyddogion y Pwyllgor wedi pwyso am hynny, ar ôl gweld methiant i’w chyflwyno. Ni chredir bod ystyried hyn yn ddim byd llai na mater “relating to the scrutiny of relevant Welsh subordinate legislation”, o fewn telerau adran 58(7).

Efallai y bwriedir awgrymu nad yw peidio â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 22.26 yn fethiant â chyflawni “gofynion cyfreithiol eraill” o fewn telerau Rheol Sefydlog 11.5(v).

Os dyma’r pwynt sy’n cael ei wneud, dyma’r dehongliad cul ar Reol Sefydlog 11.5(v) o’i gyferbynnu â dehongliad ehangach y Pwyllgor mewn achosion blaenorol.

Awydd y Pwyllgor yw sicrhau bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu parchu mewn perthynas â mater sy’n effeithio’n uniongyrchol ar y Pwyllgor. Nid dim ond mater ynglyn â sut mae’r Pwyllgor yn gwneud ei waith a chwrteisi tuag ato yw hyn. Os yw adroddiadau’r Pwyllgor ynghylch deddfwriaeth a wneir o dan y weithdrefn frys yn cael eu gohirio oherwydd oedi wrth gyflwyno’r offeryn i’r Pwyllgor, mae’n bosibl na chaiff Aelodau’r Cynulliad rybudd ynghylch diffygion posibl o fewn y cyfnod o “ddeugain diwrnod gwaith” o dan Reol Sefydlog 22.29. Yn sgil hynny, efallai na fydd modd cychwyn y weithdrefn ddiddymu y gallai aelod fod wedi’i chychwyn fel arall.

Mae’r Pwyllgor wedi nodi bod Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol i gymryd rheolaeth dros orchmynion a wneir o dan y weithdrefn frys er mwyn sicrhau y cânt eu cyflwyno i’r Pwyllgor cyn gynted ag y gellir. Ar sail hynny, ni ddylai fod angen mynd ar drywydd dehongliad “eang” Rheol Sefydlog 11.5(v) yn erbyn y dehongliad “cul” yn y dyfodol, gan na ddylai cwestiwn peidio â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 22.26 godi.

Er hynny, mae'n dal yn rhaid ystyried sut i fwrw ymlaen yn yr achos hwn. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor yn bendant fod rhaid iddo allu tynnu sylw'r Cynulliad at y ffaith bod offeryn heb gael ei gyflwyno iddo o fewn y cyfnod a ragwelir yn Rheol Sefydlog 22.26. Mae'r mater wedyn yn dod yn un cul iawn, sef a ddylai'r Pwyllgor wneud hyn drwy fynegi eu pryderon fel mater y gellir cyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 11.5(v) neu ddodi'r pwynt yn yr adran o'r adroddiad sy'n dwyn y teitl "Sylwadau Cyffredinol". Yr un fyddai'r effaith i bob pwrpas. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn sylwi bod y camau y mae'r mater hwn wedi arwain atynt yn codi, mae'n ymddangos, o'r adroddiadau ffurfiol sydd wedi'u defnyddio mewn achosion blaenorol ac sydd wedi'u cynnig yn yr achos hwn. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn briodol yn yr achos hwn i gadw at y dehongliad eang sy'n edrych ar y Rheolau Sefydlog fel "legal requirements" o fewn telerau Rheol Sefydlog 11.5(v). Ar y sail honno, credir mai priodol yw cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i'r methiant hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 22.26.

O ran cwestiwn yr oedi wrth gyhoeddi, nodir bod y Gweinidog yn cytuno nad yw'r oedi yn dderbyniol. Fel mewn achosion blaenorol, mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod swyddogion y Cynulliad wedi cael anhawster yn y broses argraffu. Er hynny, gan fod methiant i gydymffurfio â Deddf Offerynnau Statudol wedi digwydd, mae'n rhaid ir Pwyllgor gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i'r offeryn yn hyn o beth.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

19 Rhagfyr 2000